**Septorhinoplasty**

**Cyngor wrth gael eich Rhyddhau o'r Ysbyty**

**Cyngor i gleifion wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn Septorhinoplasty**

Yn dilyn yr anesthetig dylech ddilyn diet ysgafn ac osgoi diodydd pefriog am y dydd i atal salwch. Dylech fynd adref yn syth o'r ysbyty a gorffwys am 2 ddiwrnod.

**Gweithgareddau dydd i ddydd**

Argymhellir eich bod yn cymryd 2 wythnos i ffwrdd o'r gwaith ar ôl y lawdriniaeth. Dylid osgoi ymarfer corff neu weithredu peiriannau trwm yn ystod y cyfnod hwn. Gellir darparu nodyn salwch cyn i chi gael eich rhyddhau - bydd angen i chi wneud cais am hyn. Fe'ch cynghorir hefyd i gadw draw o amgylcheddau myglyd neu lychlyd a lleoedd gorlawn er mwyn ceisio osgoi haint.

Ceisiwch osgoi diodydd poeth iawn, prydau bwyd poeth iawn a baddonau neu gawodydd poeth iawn am bythefnos ar ôl y lawdriniaeth i atal gwaedu trwyn. Fe'ch cynghorir hefyd i beidio â chwythu'ch trwyn, a thisian gyda'ch ceg ar agor yn ystod y cyfnod hwn, am yr un rheswm. Fe'ch cynghorir yn gryf i roi'r gorau i ysmygu gan fod hyn yn amharu ar allu'r corff i wella ac yn cyfrannu at symptomau trwynol parhaus. Gall staff roi cysylltiadau cymorth i chi er mwyn eich helpu i roi'r gorau iddi. Dylech osgoi chwaraeon cyswllt am o leiaf 6 wythnos er mwyn osgoi taro eich trwyn tra bod yr esgyrn yn gwella.

**Poen**

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn teimlo rhywfaint o anesmwythdra yn y trwyn am yr ychydig ddyddiau cyntaf ar ôl y lawdriniaeth. Dylai cyffuriau lleddfu poen syml a gymerir yn rheolaidd, fel paracetamol, leddfu'r anesmwythdra. Bydd staff nyrsio yn trafod meddyginiaeth gyda chi cyn i chi gael eich rhyddhau o'r ysbyty. Os yw'r boen yn eich trwyn yn cynyddu neu os bydd pen y trwyn yn dynner i'w gyffwrdd neu'n chwyddo, cysylltwch â'r ysbyty neu'ch meddyg teulu am gyngor.

**Clwyf**

Mae'n normal i'r wyneb gleisio a chwyddo yn dilyn llawdriniaeth. Gall hyn bara am hyd at 4 wythnos. Efallai y bydd diffrwythder yn eich dannedd ond mae hyn fel arfer yn gwella gydag amser. Mae'n gyffredin iawn i'r llawfeddyg roi cast ar du allan y trwyn er mwyn cefnogi'r trwyn wrth iddo wella. Bydd fel arfer yn cael ei dynnu 7-10

diwrnod ar ôl y lawdriniaeth a byddwch yn cael cyfarwyddyd ar sut y bydd hyn yn cael ei wneud. Os yw'r tâp elastoplast yn dod yn rhydd gallwch chi roi tâp Elastoplast ffres drosto. Wrth i'r chwydd leihau weithiau gall y cast ddod yn rhydd. Os bydd y cast yn cwympo i ffwrdd, peidiwch â cheisio rhoi rhywbeth yn ei le. Bydd angen i chi fynd i’ch apwyntiadau yn ôl yr arfer.

Os oes gennych bwythau allanol ar y croen o dan flaen eich trwyn, bydd angen tynnu'r rhain 7 diwrnod ar ôl y lawdriniaeth. Bydd apwyntiad yn ystafell driniaeth ENT yr ysbyty yn cael ei drefnu ar eich cyfer cyn i chi gael eich rhyddhau. Bydd eich llawfeddyg hefyd yn rhoi hufen ar bresgripsiwn i chi ei roi ar y clwyf. Er mwyn helpu’r clwyf i wella, argymhellir eich bod yn aros allan o olau haul uniongyrchol am 6 mis a defnyddio amddiffyniad haul ffactor uchel bob amser yn ogystal â gwisgo het os yn bosibl.

Efallai y bydd gennych redlif dyfrllyd gydag ychydig o waed ynddo yn dod o'ch trwyn. Bydd eich trwyn hefyd yn teimlo wedi'i rwystro gan y bydd wedi chwyddo ar ôl y lawdriniaeth. Mae hyn yn rhan normal o'r broses o wella a gall bara hyd at 4 wythnos ar ôl y lawdriniaeth. Os bydd gwaedu'n digwydd, pinsiwch eich trwyn yn ofalus, pwyso ymlaen a rhoi iâ arno. Os na fydd y gwaedu'n stopio ar ôl 20 munud, ewch i'ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf.

Os byddwch yn dechrau gweld rhedlif tebyg i grawn (melyn-wyrdd) yn dod o'ch trwyn dylech gysylltu â'r ysbyty neu’ch Meddyg Teulu am gyngor. Gall crystiau a chrachenni ddatblygu y tu mewn i'ch trwyn. Ceisiwch osgoi pigo'r rhain gan y gall hyn achosi gwaedu a gall amharu ar eich gwellhad. Efallai y bydd gofyn i chi olchi eich trwyn â dŵr halen a bydd staff yn eich cynghori ar hyn ac yn darparu gwybodaeth ar wahân i chi. Os oes gennych unrhyw ddresin hydawdd y tu mewn i'ch trwyn bydd staff yn eich cynghori ar ffyrdd i annog y dresin i doddi.

**Camau Dilynol:**

Fel arfer bydd angen i’r ymgynghorydd eich gweld yn y clinig 6-8 wythnos ar ôl eich llawdriniaeth, oni bai bod eich llawfeddyg wedi dweud fel arall wrthych. Bydd yr apwyntiad hwn yn cael ei bostio atoch chi.

## GWYBODAETH AR BETH I’W WNEUD MEWN ARGYFWNG AR GYFER CLEIFION SYDD WEDI’U RHYDDHAU O’R YSBYTY

**09:00 tan 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc):** Cysylltwch ag ystafell Driniaeth ENT ar 01633 234018

**Ar ôl 17:00 /dros nos**: Ward C0 ar 01633 493926

**Os bydd argyfwng, ewch i'ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf**

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English”**